

Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod:	5 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Teitl	Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022-2023

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae a wnelo'r adroddiad hwn ag adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022-2023.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Er mwyn hysbysu'r Pwyllgor o benderfyniadau cychwynnol y Panel ynglŷn â chyflogau sylfaenol, dinesig ac uwch, a cheisio barn y Pwyllgor er mwyn llunio ymateb i'r ymgynghoriad y mae'r Panel yn ei gynnal ynglŷn â'i adroddiad blynyddol drafft.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad blynyddol drafft y Panel sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn Atodiad 1, ac yn gwneud unrhyw sylwadau y dymuna eu gwneud mewn ymateb i'r Ymgynghoriad y mae'r Panel yn ei gynnal.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Sefydlwyd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn 2008. Ehangwyd cylch gwaith a swyddogaethau'r Panel ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae cylch gwaith y Panel yn cynnwys cynghorwyr, aelodau o awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub Cymru a chynghorau tref a chymuned yn ogystal â chynghorau sir a bwrdeistref sirol. Gall y Panel bennu swm gwirioneddol y tâl y caiff awdurdod ei roi i aelodau, a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a all wneud cynghorwyr yn gymwys i dderbyn taliadau.
- 4.2. Mae'n ofynnol i'r Panel gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi lefelau tâl yr aelodau ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer blwyddyn y Cyngor i ddod. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu argymhellion y Panel. Mae'r adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2022-2023 ynghlwm yn Atodiad 1.
- 4.3. O'r cychwyn cyntaf mae'r Panel wedi bod yn bendant a chyson wrth ddatgan nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn dod heb gostau, a bod angen eu gwerthfawrogi er mwyn galluogi pawb i gymryd rhan. Mae'n rhaid pennu cyflogau digonol er mwyn annog amrywiaeth o bobl leol sydd â'r ewyllys a'r gallu i gyflawni swyddogaethau llywodraethu lleol mewn swyddi etholedig, penodedig neu gyfetholedig. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog pobl i hawlio eu cyflogau er mwyn sicrhau y gall pobl o bob cefndir gymryd rhan yn ein democratiaeth yn hyderus.
- 4.4. Yn ôl y Panel, nid yw cyflogau aelodau etholedig llywodraeth leol yng Nghymru wedi cadw'n gyson â chwyddiant a llinynnau mesur tebyg ers 2009. Yn y cyfamser, yn ôl y Panel, mae penderfyniadau a'r drefn lywodraethu leol wedi mynd yn fwy cymhleth ac mae yno gyfrifoldebau ychwanegol yn deillio o newidiadau cyfreithiol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a thechnolegol.
- 4.5. Dywed y Panel na fu modd cynnal y cysylltiad rhwng cyflogau aelodau a chyflogau cyfartalog yng Nghymru mewn blynyddoedd diweddar ac y dylid mynd ati i'w adfer.
- 4.6. Mae'r Panel yn pryderu ynglŷn â nifer isel yr aelodau etholedig sy'n hawlio'r taliadau sydd ar gael ar gyfer gofal i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau, ac

yn galw ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i annog aelodau â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio ar y cymorth fel nad ydynt ar eu colled.

- 4.7. Mae yno gysylltiad pendant rhwng casgliadau'r Panel a'r agenda Amrywiaeth mewn Democratiaeth o ran sicrhau y gall pobl o bob cefndir fforddio cymryd rhan mewn democratiaeth leol.
- 4.8. Yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn cyflwynir Tabl 4 o'r adroddiad blynyddol drafft sy'n nodi'r cyflogau a argymhellir ar gyfer gwahanol swyddi yn y Cyngor. Bydd y cyflogau hynny'n daladwy ym mis Mai 2022.
- 4.9. Bydd y drefn o osod awdurdodau lleol mewn bandiau A, B ac C yn parhau. Mae'r Panel o'r farn bod maint y boblogaeth yn elfen arwyddocaol ac mae'r cyflogau uwch ar gyfer rhai o'r swyddi'n amrywio yn ôl maint y Cyngor dan sylw. Mae Sir Ddinbych ym Mand C sy'n cynnwys y Cynghorau lleiaf yng Nghymru yn ôl eu poblogaeth, ac felly mae'r cyflogau ar gyfer swyddi uwch a nodir uchod yn llai na'r rhai cyfatebol mewn cynghorau mwy.
- 4.10. Gwelir yn Atodiad 2 yr argymhellir talu cyflog sylfaenol o £16,800 y flwyddyn i bob aelod. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor dalu'r cyflog hwn i bob aelod unigol. Gall aelod unigol ddewis peidio â derbyn y cyflog sy'n ddyledus iddynt, neu ran ohono, ond nid yw'r Cyngor yn medru penderfynu peidio â thalu'r swm cyflawn i unrhyw aelod neu aelodau.
- 4.11. Cyflogau uwch yw'r rhai hynny sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi penodol ymhob Cyngor. Yn Atodiad 2 nodir y cyflogau yr argymhellir eu talu yn 2022-2023. Mae'r symiau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol ac nid yn ychwanegol iddo. Nid yw'n orfodol i dalu cyflog uwch i ddeiliad pob swydd. Yr unig gyflog uwch y mae'n rhaid ei dalu yn ôl y gyfraith yw cyflog Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf. Mae pob cyflog uwch arall yn ddewisol, ond os yw'r Cyngor yn penderfynu talu cyflog uwch mae'n rhaid ei dalu ar y gyfradd a bennir gan y Panel, oni bai fod aelod unigol yn dewis peidio â derbyn y cyflog neu ran ohono. Ni chaniateir talu mwy nag un cyflog uwch i unrhyw aelod.
- 4.12. Mae'r Panel yn pennu uchafswm i bob Cyngor ynglŷn â nifer y cyflogau uwch y mae'n gallu eu talu. Yr uchafswm i Sir Ddinbych yw dau ar bymtheg o gyflogau uwch. Nid yw'r Cyngor yn cyrraedd yr uchafswm, ac ar hyn o bryd yn talu pymtheg o gyflogau uwch.

4.13. Y rhain yw'r cyflogau uwch y mae'r Cyngor yn eu talu:

- Yr Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Aelodau'r Cabinet (6)
- Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
- Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu (3)
- Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf.

4.14. Wrth bennu lefelau cyflogau uwch am flwyddyn y Cyngor sydd i ddod, mae'r Panel yn esbonio yn yr adroddiad ei fod yn pryderu nad yw'r cyflogau presennol yn aml iawn yn ddigon deniadol yn ariannol, a bod canfyddiad eu bod yn rhwystro pobl rhag cyfranogi. Ym marn y Panel, nid yw hynny'n gydnaws ag ysbryd amrywiaeth, cynhwysiad na democratiaeth, ac nid yw'n effeithlon chwaith ar gyfer rheoli prif gynghorau'n effeithiol.

4.15. Mae'r Panel yn cydnabod y gall swyddogaethau a chyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau amrywio. Dylai pob Cyngor benderfynu pa rai o'i Gadeiryddion y dylid talu cyflogau uwch iddynt, ac os penderfynir gwneud mae'n rhaid eu talu ym Mand 3. Yn ei adroddiad diwethaf fe leihaodd y Panel y gwahaniaeth rhwng cyflogau a delir i Gadeiryddion Pwyllgorau a chyflogau uwch eraill. Eleni, felly, mae wedi penderfynu peidio â chynyddu'r gyfradd ar gyfer yr elfen hon.

4.16. Y Panel sydd hefyd yn pennu lefelau'r Cyflogau Dinesig y gellir eu talu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor. Nid yw'r rhain yn cyfrif tua'r uchafswm o gyflogau uwch. Mater i bob Cyngor yw penderfynu a ddylid talu Cyflogau Dinesig neu beidio, ond os penderfynir gwneud mae'n rhaid eu talu ar y gyfradd a nodir yn yr adroddiad. Mae'r Cyngor hwn yn talu Cyflogau Dinesig ac yn 2022-2023 mae'r Panel yn argymhell y dylai'r cyflog sy'n daladwy i'r Cadeirydd fod ym Mand 3, a'r cyflog sy'n daladwy i Is-gadeirydd y Cyngor ym Mand 5.

4.17. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'n bosib rhannu swyddi gweithredol a gall Arweinwyr benodi pobl mewn swyddi cynorthwyol. Yn yr adroddiad mae'r Panel yn gosod fframwaith lle gall cynghorau wneud cais i dalu cyflogau uwch ychwanegol i ddeiliaid swyddi felly,

ar yr amod nad oes mwy na 50% o aelodau'r Cyngor yn derbyn cyflogau uwch. Dywed y Panel y caiff unrhyw geisiadau felly eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol.

4.18. Mae adroddiad y Panel yn sôn am gyflogau cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Nid oes modd cynnwys holl argymhellion y Panel yn yr adroddiad hwn ond bydd swyddogion yn medru ymhelaethu yng nghyfarfod y Pwyllgor.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Byddai'r cyflogau sylfaenol ac uwch a gynigir yn adroddiad y Panel yn golygu cynnydd o £161,000.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorir â'r Pwyllgor ynghylch argymhellion y Panel. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad arall.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Testun yma

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ceir risg y byddai rhai pobl yn methu â fforddio cymryd rhan mewn democratiaeth leol a sefyll mewn etholiad os na phennir cyflogau digonol ar gyfer aelodau etholedig.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011